COFNODION CYFARFOD FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD O BELL - DROS MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN, 11 HYDREF 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | J Coles | C Davies | P Deenik |
| B Doughty | S Easterbrook | M J Evans | P Ford |
| R M Granville | J Holmes | P W Jenkins | M R John |
| M Jones | S Parker | J Perren | I M Spiller |
| J C Spanswick | Y Walton | M J Williams | R Williams |
| E D Winstanley | T Wood | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H J David

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stuart Baldwin | Rheolwr Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Matthams | Cynllunio Datblygiadau - Arweinydd Tîm |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Louis Pannell | Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Fiona Pickwell | Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol |
| Adam Provoost | Uwch Reolwr Datblygu Cynllunio |

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Mabyn Thomas | Clerc - Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf |

Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Y Cynghorydd M Evans ddiddordeb personol yn eitem 6 ar yr Agenda fel Cynghorydd Tref Pencoed.
Datganodd Y Cynghorydd R Williams ddiddordeb personol yn eitem 6 ar yr Agenda fel Cynghorydd Tref Pencoed.

## 28. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod Fforwm Cyngor Tref a Chymuned â'r dyddiad 1 Medi 2023 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Mawrth 2024 |

## 29. Cyfamod y Lluoedd Arfog

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol yr adroddiad hwn yn amlinellu manylion a phwysigrwydd Cyfamod y Lluoedd Arfog, sef cynllun sydd wedi'i gynllunio i dynnu sylw at frwydrau sy'n wynebu cyn-filwyr wrth drosglwyddo i ffwrdd oddi wrth waith y Lluoedd Arfog, ac i alluogi sefydliadau i fodloni eu gofynion unigryw. Cafodd yr adroddiad ei ohirio am gyfnod byr oherwydd trafferthion TG.<br><br>Cyflwynodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br>• Rhannu'r cyflwyniad ar gyfer ei ddosbarthu'n rhwydd<br>• Canolbwyntio ar ddyraniad rhandiroedd i gyn-aelodau o staff fu'n gwasanaethu<br><br>Ymatebwyd i'r cwestiynau hyn gan y Cadeirydd a Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol, gyda'r Cadeirydd yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o Gynghorau lleol yn gallu defnyddio'r Cyfamod.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodwyd yr adroddiad gan y Fforwm, gan gydnabod bod gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr hanes gwych o gynorthwyo cyn-aelodau o staff y Lluoedd Arfog a bod llawer i'w wneud er mwyn hwyluso |

| | |
|---|---|
| | taith pobl oedd wedi bod yn gwasanaethu yn y lluoedd i addasu i fywyd sifilaidd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Mawrth 2024 |

## 30. Rhywogaethau Goresgynnol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd ar INNS (rhywogaethau estron goresgynnol) i'r DU megis canclwm Japan, a'r ffromlys chwarennog, ffyrdd o adnabod a rheoli'r ffordd maent yn ymledu ochr yn ochr â chofnodi effeithiau eu presenoldeb.<br><br>Cyflwynwyd cwestiynau ar y pynciau:<br>• Sut i godi adroddiadau am rywogaethau goresgynnol ar gyfer aelodau oddi mewn ac oddi allan i CBS Pen-y-bont ar Ogwr<br>• Opsiynau ar gyfer dulliau cyfathrebu all-lein ar gyfer preswylwyr ac aelodau<br>• Cofnod CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar reoli INNS ar eu heiddo eu hunain<br>• Dealltwriaeth Contractwyr CBS Pen-y-bont ar Ogwr o ddulliau atal Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Ymatebwyd i'r cwestiynau hyn gan y Swyddog Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau yn gofyn am gofnodion o achosion o INNS gafodd eu gwaredu yn anghywir.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nodwyd yr adroddiad gan y Fforwm. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Mawrth 2024 |

## 31. Diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol yr adroddiad hwn sy'n cynnwys y Cynllun Ddatblygu Lleol wedi'i ddiweddaru ac sy'n cwmpasu lleoli, paratoi a chefnogi prosiectau cynllunio mawr ar lefel Bwrdeistref ac sy'n gweithredu fel cynllun defnydd tir strategol wrth symud ymlaen.<br><br>Roedd gan yr aelodau gwestiynau ynghylch: |

| | |
|---|---|
| | • Materion sy'n berthnasol i groesfan Pencoed ynghanol cynnydd yn y defnydd a wneir o'r cledrau i Faesteg<br>• Gwnaed yn eglur bod y newid fu yn y deunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer colofnau goleuadau stryd yn fater gweithrediadol yn hytrach na rhywbeth oedd yn berthnasol i'r eitem.<br><br>Atebwyd yr ymholiadau hyn gan y Rheolwr Grŵp Datblygu a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodwyd yr adroddiad gan y Fforwm. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Mawrth 2024 |

**32. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Mawrth 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben ar 17:15.